HYSBYSIAD ETHOLIAD

Dinas Casnewydd

Ethol Cynghorwyr Dinas

dros y Wardiau a restrir isod

Wards	Number of City Councillors to be elected	Wards	Number of City Councillors to be elected
Allt-yr-ynn	Tri	Pilgwenlli	Dau
Alway	Tri	Ringland	Tri
Beechwood	Tri	Dwyrain Ty-du	Un
Betws	Tri	Gogledd Ty-du	Un
Trefesgob a Langstone	Dau	Gorllewin Ty-du	Dau
Caerllion	Tri	Shaftesbury	Dau
Gaer	Tri	Sain Silian	Tri
Graig	Dau	Stow Hill	Dau
Llan-wern	Un	Parc Tredegar a Maerun	Tri
Llyswyry	Pedwar	Victoria	Dau
Malpas	Tri		

1.Gellir cael ffurflenni enwebu ar gyfer Etholiadau Cyngor y Ddinas o Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR gan y Swyddog Canlyniadau a fydd, ar gais etholwr ar gyfer unrhyw ardal etholiadol, yn paratoi papur enwebu i'w lofnodi.
2.Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Ystafell 527a, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR, rhwng **10:00** a **16:00** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc) o ddyddiad yr hysbysiad hwn, ond heb fod yn hwyrach na **16:00 ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022**. Bydd archwiliad anffurfiol o bapurau enwebu a dosbarthu electronig ar gael hyd at **12:00 ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022**.
3.Os ymleddir unrhyw etholiad, caiff y bleidlais ei chynnal **ddydd Iau 5 Mai 2022**.
4.Rhaid i geisiadau cofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 canol nos ar 14 Ebrill 2022. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**
5.Dylai etholwyr a'u dirprwyon sylwi bod rhaid i bob cais am bleidleisiau post newydd, pleidleisiau drwy ddirprwy drwy'r post a diwygiadau neu ganslo pleidleisiau post a dirprwy presennol, gyrraedd y Swyddfa Cofrestru Etholiadol isod, erbyn **17:00 ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022**. Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno gwneud newidiadau i'w trefniadau presennol yn barhaol.
6.Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Ystafell 528, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR erbyn **17:00 ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022**.
7.Rhaid i geisiadau am bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail anabledd, am resymau sy'n ymwneud â gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddf neu ganllawiau gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyfeiriad uchod erbyn **17:00** ar **5 Mai 2021**. Rhaid bod yr anallu edd corfforol wedi digwydd ar ôl **17:00 ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022**. Er mwyn gwneud cais ar sail gwaith/gwasanaeth neu'r coronafeirws, rhaid bod y person wedi sylweddoli ar ôl **17:00 ddydd Mawrth 26 Ebrill 2022** na fyddai'n gallu mynd i'r orsaf bleidleisio.
8.Dylid cyflwyno ymholiadau cychwynnol i Leanne Rowlands, Dirprwy Swyddog Canlyniadau, Ystafell 528, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR; Ffôn: 01633 210744

Datganiad Cyflwyno'n Electronig
Rhaid cyflwyno papurau enwebu a gyflwynir yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn.
Gellir cyflwyno Papurau Enwebu ar ffurf electronig o fewn yr amserlen a ganiateir ar gyfer cyflwyno enwebiadau.
https://tinyurl.com/33ky53f4
Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y papurau enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiad cau penodol.
Nid yw cyfeirnod electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad ynghylch a yw ei enwebiad yn ddilys ai peidio.

Beverly Owen
Swyddog Canlyniadau
Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig,
Casnewydd
NP20 4UR

Dyddiedig heddiw 28ain Mawrth, 2022

Argraffwyd a Chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR